# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2) 03-06

### Dyddiad y cyfarfod: 8 Chwefror 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.19
### Lleoliad y Cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad oedd yn Bresennol

| **Aelod y Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Allun a Glannau Dyfrdrwy |

#### Swyddogion oedd yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Prif Weithredwr Bwrdd Datblygu Cymru |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Transport Wales |
| Julian Revell | Ystadegau'r farchnad economaidd a llafur |
| Rob Halford | Yr Is Adran Polisi Economaidd |

| | |
|---|---|
| Glenn Massey | Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau |
| Robert Cone | Yr Is Adran Rheol’r Rhwydwaith Ffyrdd |
| Jeff Collins | Yr Is Adran Rheoli’r Rhwydwaith Ffyrdd |

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datganiadau am Fuddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Eleanor Burnham a fyddai’n dirprwyo dros Kirsty Williams.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau am fuddiannau.

1.3 Mae cofnod gair am air o’r cyfarfod ar gael

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (EDT)**

Papur: EDT(2) 03-06 (p.1)

EDT(2) 01-06 (p.2) Adroddiad Economaidd Chwarterol

EDT(2) 01-06 (p.3) Bwletin Ystadegol Chwarterol

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog EDT ei adroddiad.

2.2 Cyhoeddodd y Gweinidog y Grant Setliad Trafnidiaeth ar gyfer 2006 – 07.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor ar y gyfundrefn perfformiad ar gyfer trenau Arriva ac eglurhad am y diffinidadau a ddefnyddir.
- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu papur ar y data RSA diweddaraf.
- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddiweddaru’r Pwyllgor ar y sefyllfa gyda golwg ar orsaf bwer

Wylfa a’r effaith posibl ar Aliwminiwm Môn ac i ddarparu diweddariadau fel mater o drefn wedyn.

- Cytunodd y Clerc i ddarparu i Aelodau’r Pwyllgor yr astudiaeth GMB ddiweddar yn ymwneud â chynhyrchu.
- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu diweddariad ar gloddfa ddofn Margam.
- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor ar y canran rhaniad yng Nghymru rhwng cyflogaeth sector Preifat a sector Cyhoeddus a’r trosglwyddiad net swyddi i Gymru yn dilyn Adolygiad Lyons.
- Cytunodd y Gweinidog ECT i ddarparu diweddariad ar ehangu’r Grid Cenedlaethol.
- Cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu i’r Pwyllgor ddadansoddiad o’r cynnyrch adeiladwaith ar gyfer adeiladwaith masnachol a domestig ac a ariannir yn breifat ac yn gyhoeddus yng Nghymru.
- Os ydynt ar gael, cytunodd y Gweinidog EDT i ddarparu ffigurau i’r Pwyllgor ar ddyled personol a faint o bobl sy’n mynd yn fethdal yng Nghymru.

## Eitem 3: Canllawiau Cymorth Rhanbarthol

Papur: EDT(2) 03-06 (p.4)

3.1 Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad.

## Pwyntiau Gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog EDT i gyflwyno cynlluniau ar gyfer symleiddio’r system grantiau i’r Pwyllgor ar yr amser priodol.

## Eitem 4: Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau

Papur: EDT(2) 03-06 (p.5)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad a nodi y byddai’n edrych ar hynt y banc gwybodaeth yn rheolaidd.

## Eitem 5: Prisio Ffyrdd

Papur: EDT(2) 03-06 (p.6)

5.1 Fe nodwyd y papur gan y Pwyllgor a chytunwyd y byddai angen i ddatblygiadau gael eu hystyried gan y Pwyllgor.

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion yn codi

Papur: EDT(2) 01-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 11 Ionawr
Papur: EDT(2) 02-06 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Ionawr
Papur: EDT(2) 03-06 – Camau heb eu cymryd

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Ionawr 11 a 26 yn gofnod cywir.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**